Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW): Y diweddaraf am y gwasanaeth a phrosiectau a noddir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig: Ionawr 2023

Diweddariad diweddaraf y gwasanaeth ar y Rhaglen Datblygu Gwledig (CDG) 2014-2020 dyddiedig 17 Ionawr 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Ionawr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Ionawr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-1** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Dyddiad cau ar gyfer newidiadau i brosiectau cymeradwy

Prosiectau y disgwylir eu cwblhau erbyn 31 March 2023

Eich Atgoffa i Hawlio (WEFO Ar-lein)

Cofrestrau Gwariant ac Ailwerthusiadau

Canllawiau ynghylch Croniadau

Cau'r Rhaglen

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-1** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dyddiad cau ar gyfer newidiadau i brosiectau cymeradwy

Y dyddiad cau ar gyfer pob cais am newidiadau i brosiectau cymeradwy (ailwerthusiadau) yw **31 Ionawr 2023. Ni fydd unrhyw geisiadau i newid prosiect yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn.**

Gweler **diweddariad mis Tachwedd 2022** am yr amgylchiadau a'r broses ar gyfer gwneud cais am newid.

## Prosiectau y disgwylir eu cwblhau erbyn 31 March 2023

Mae Blwyddyn Ariannol Llywodraeth Cymru 2022/23 yn rhedeg o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

Mae eich cyllid grant RDP wedi ei gyllidebu ar gyfer y blynyddoedd ariannol a gymeradwywyd fel rhan o Broffil Cyflawni eich prosiect.

Os bydd hawliad olaf y prosiect yn cael ei gyflwyno yn y Flwyddyn Ariannol hon, gofalwch fod holl wariant y prosiect wedi'i hawlio erbyn **5 Ebrill 2023**.

Os oes angen i chi ofyn am estyniad i ddyddiad terfynol eich prosiect, bydd angen i chi gyflwyno cais newid prosiect erbyn **31 Ionawr 2023**.

## Eich Atgoffa i Hawlio (WEFO Ar-lein)

Mae Blwyddyn Ariannol Llywodraeth Cymru 2022/23 yn rhedeg o 1 Ebrill 2022 i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-1** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

31 Mawrth 2023.

Rhaid hawlio holl wariant cymwys y prosiect a wariwyd ym Mlwyddyn Ariannol 2022/23 **ddim hwyrach na 5 Ebrill 2023**.

Os oes gennych hawliad ar eich Proffil ar gyfer mis Mawrth 2023, bydd RPW yn cysylltu â chi yn wythnos gyntaf mis Mawrth fel bod gennych ddigon o amser i hawlio **erbyn 5 Ebrill 2023**.

Os na fyddwch wedi hawlio holl wariant cymwys y prosiect, mae perygl y gallech golli'ch grant.

Os oes gennych fwy nag un hawliad ar gael (â statws Gwahoddwyd), rydym yn eich cynghori i hawlio'r un diweddaraf a gofyn i ni ganslo'r hawliad(au) hŷn.

## Cofrestrau Gwariant ac Ailwerthusiadau

Os oes gennych wariant cymwys ar eich prosiect y gallech ei hawlio cyn diwedd y Flwyddyn Ariannol, ond nad yw'r gofrestr gwariant neu'r ailwerthusiad o'ch prosiect wedi'i gymeradwyo eto, dilynwch y canllawiau isod ynghylch croniadau os na fydd y gymeradwyaeth wedi'i rhoi erbyn wythnos gyntaf mis Mawrth ac nad ydych yn gallu cyflwyno hawliad erbyn y dyddiad cau, sef 5 Ebrill 2023.

Gallai peidio â chyflwyno croniadau beryglu'ch grant.

## Canllawiau ynghylch Croniadau

Bydd angen croniadau:

- Os na fyddwch wedi gwario holl wariant Blwyddyn Ariannol 2022/23 y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-1** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

prosiect, er enghraifft mae gennych anfonebau sydd heb eu talu ar 31 Mawrth 2023 neu

- Os nad ydych wedi gallu hawlio am eich bod yn aros am
  - y newidiadau rydych chi wedi gofyn amdanynt i'ch prosiect a bod hynny'n effeithio ar eich gallu i hawlio,
  - i ni gymeradwyo cofrestr gwariant a/neu gofnod eich tendr cystadleuol,
  - taliad o hawliad blaenorol

Yn yr achosion hyn, bydd angen ichi nodi gwariant 22/23 sydd heb ei hawlio trwy gyflwyno tystiolaeth ohono ar eich cyfrif WEFO Ar-lein **ddim hwyrach na 5 Ebrill 2023 .**

Sut i gyflwyno manylion y croniadau hyn ar WEFO Ar-lein:

- casglu'r holl **dystiolaeth** o'r gwariant sydd heb ei hawlio, er enghraifft copïau wedi'u sganio o anfonebau neu daflenni amser
- nodi gwerth yr eitemau gwariant yn y **Ffurflen Crynodeb o Groniadau**
- mewngofnodi i'ch cyfrif WEFO Ar-lein
- i weld sut i lanlwytho dogfen i WEFO Ar-lein, ewch i Sut i Ddefnyddio WEFO Ar-lein
- o ran enw'r achos (prosiect) cliciwch **Crynodeb o'r Hawliad** ac agor yr hawliad mwyaf diweddar (unrhyw statws)
- o'r gwymplen yno, cliciwch ar **Dogfennau'r Hawliadau**. Yna lanlwythwch Ffurflen Crynodeb o'r Croniadau a'r dystiolaeth.
- heb dystiolaeth, ni fyddwn yn gallu cronni'r gwariant a gallech golli'r grant.
- dylech enwi'ch dogfen **ID yr Achos Croniad RDP – Mawrth 2023**, er enghraifft 98251 Croniad RDP – Mawrth 2023.

Ni fydd RPW yn eich talu ar sail ffigurau'r croniadau hyn.  I gael taliad, rhaid cyflwyno hawliad trwy'r broses hawlio arferol ar WEFO Ar-lein.

Byddwn yn disgwyl ichi **hawlio'r gwariant hwn sydd wedi cronni ar WEFO Ar-lein ddim hwyrach na 30 Ebrill 2023.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-1** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gallwch ei hawlio ar WEFO Ar-lein fel rhan o’ch hawliad nesaf o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fyddwch wedi’i wario ac y bydd gennych dystiolaeth ar gyfer ei hawlio, fel anfonebau neu ddatganiadau banc
- pan fydd yr hawliad blaenorol wedi’i awdurdodi neu ei dalu, y tendr cystadleuol wedi’i gymeradwyo neu’r ailwerthusiad wedi’i gwblhau; pa un bynnag sy’n berthnasol

## Cau’r Rhaglen

Yn ein **diweddariad ar Fehefin 2022** fe wnaethom egluro y bydd y rhaglen RDP 2014-2020 yn cau ar 31 Rhagfyr 2023.

Rydych bellach yn agosáu at fisoedd olaf eich prosiect. Rhaid ichi gyflawni’r amcanion prosiect y cytunwyd arnynt a chyflwyno eich **hawliad terfynol erbyn y dyddiad cau, sef 7 Gorffennaf 2023**.

> **Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
> Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-1** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.